Adran Gwaith a Phensiynau

# Moderneiddio Cymorth ar gyfer Byw'n Annibynnol:

## Y Papur Gwyrdd Iechyd ac Anabledd

CP 1061W

# Moderneiddio Cymorth ar gyfer Byw'n Annibynnol:

## Y Papur Gwyrdd Iechyd ac Anabledd

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau Trwy orchymyn Ei Fawrhydi

Ebrill 2024

CP 1061W

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2024**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn a fformatau hygyrch ar-lein y cyhoeddiad hwn ar gael yn: https://www.gov.uk/government/consultations/modernising-support-for-independent- living-the-health-and-disability-green-paper

Anfonwch unrhyw geisiadau am fformatau hygyrch eraill y cyhoeddiad hwn at consultation.modernisingsupport@DWP.GOV.UK

ISBN 978-1-5286-4809-7
E03109954 04/24

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 40% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd ar ran rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.

# Cynnwys

Rhagair Gweinidogol.................................................. 3

Crynodeb Gweithredol................................................. 7

# Rhagair Gweinidogol

Fy mlaenoriaeth fel Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau yw sicrhau bod ein system les yn deg ac yn dosturiol. Bod yn deg i'r trethdalwr drwy sicrhau bod pobl oedran gweithio sy'n gallu gweithio yn gweithio, a bod yn deg i'r rhai sydd angen cymorth y wladwriaeth fwyaf. Ar ei orau, mae lles yn ymwneud â mwy na thaliadau budd-dal yn unig; mae'n ymwneud â newid bywydau er gwell.

Dyna pam mae'r llywodraeth hon wedi cyflwyno cyfres o ddiwygiadau sydd wedi dod â mwy o degwch i'r system wrth gefnogi'r rhai sydd mwyaf agored i niwed. Rydym wedi ailwampio'r system fudd-daliadau etifeddol oedd yn gymhleth ac ar ôl ei hoes, ac rydym wedi cyflwyno Credyd Cynhwysol, sy'n fudd-dal modern, newydd sy'n sicrhau bod pobl yn well eu byd mewn gwaith nag y byddent ar fudd-daliadau.

Yn 2023 gwnaethom gyhoeddi Papur Gwyn nodedig gan gyhoeddi diwygiadau sylweddol i ganolbwyntio'r system les ar yr hyn y gall pobl ei wneud, yn hytrach na'r hyn na allant ei wneud. Gwnaethom gyhoeddi Cynllun Dychwelyd i'r Gwaith gwerth £2.5 biliwn, gan ehangu'r cymorth cyflogaeth yn syfardanol sydd ar gael i helpu mwy o bobl anabl a phobl sydd â chyflyrau iechyd i ddechrau, aros a llwyddo mewn gwaith. Ac rydym yn diwygio'r Asesiad Gallu i Weithio i adlewyrchu'n well y byd gwaith modern, gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) yn cadarnhau y bydd hyn yn lleihau nifer y bobl

yr aseswyd nad oes angen iddynt baratoi am waith gan 424,000 erbyn 28/29.

Ar ben hyn mae'r llywodraeth wedi darparu cymorth digynsail i'r rhai sydd mwyaf agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys gweithredu un o'r pecynnau cymorth costau byw mwyaf yn Ewrop, a oedd yn atal 1.3 miliwn o bobl rhag cwympo i dlodi'n llwyr yn ystod cyfnod o bwysau chwyddiant byd-eang. Rydym wedi cynyddu budd-daliadau 6.7%, ac rydym wedi codi'r Lwfans Tai Lleol gan oddeutu £800 ar gyfartaledd eleni, sydd o fudd i 1.6 miliwn o gartrefi.

Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn agor pennod newydd yn y genhedlaeth nesaf o ddiwygiadau lles. Mae wedi bod yn fwy na degawd ers cyflwyno'r Taliad Annibyniaeth Personol (PIP). Pan gyflwynwyd PIP, y bwriad oedd y byddai'n fudd-dal mwy cynaliadwy, deinamig a fyddai'n darparu cymorth wedi'i dargedu'n well i helpu pobl anabl gyda'r costau ychwanegol sy'n deillio o'u hanabledd.

Fodd bynnag, ers cyflwyno PIP mae'r ffordd y mae anabledd a salwch yn ymddangos ym Mhrydain wedi newid yn sylweddol, ac mae'r cymysgedd achos clinigol wedi esblygu yn unol â newidiadau cymdeithasol ehangach, gan gynnwys llawer mwy o bobl sy'n gwneud cais am fudd-daliadau anabledd sydd â chyflyrau iechyd meddwl a niwrowahanol na phan gyflwynwyd PIP gyntaf. Gyda bron i chwarter y boblogaeth o oedolion (23%) yn nodi anabledd yn 2024, i fyny o 16% yn 2013, credwn mai nawr yw'r amser i gael sgwrs newydd am sut y gall

y system fudd-daliadau gefnogi pobl orau i fyw bywydau llawn ac annibynnol.

Rwyf yn pryderu am gynaliadwyedd y model presennol. Dros y 5 mlynedd nesaf, disgwylir i wariant PIP dyfu 63% (£21.6bn i £35.3bn, 23/24 i 28/29).[1] Erbyn hyn mae dros 33,000 o ddyfarniadau newydd am PIP y mis o'i gymharu â 17,000 cyn y pandemig.

Gyda 2.6 miliwn o bobl oedran gweithio yn cael PIP a Lwfans Byw i'r Anabl (DLA), mae angen i ni ddeall yn well sut mae pobl yn defnyddio'r taliadau hyn ac a ellir gwneud mwy i helpu'r rhai sydd fwyaf mewn angen i fyw bywydau llawn ac annibynnol.

Nid yw'n glir ar hyn o bryd a yw graddfa fawr iawn gwariant y llywodraeth ar PIP yn troi'n gymorth wedi'i dargedu lle mae pobl anabl a phobl sydd â chyflyrau iechyd ei angen fwyaf; ac nid yw'n glir chwaith a yw'n rhoi gwerth i'r cyhoedd, y mae eu trethi yn gwneud ein gwladwriaeth les cynhwysfawr yn bosibl.

Rwyf yn benderfynol o ddod o hyd i ffyrdd o wneud i'r system weithio'n well i'r rhai sydd â'r anableddau a'r cyflyrau iechyd mwyaf difrifol, gan gynnwys trwy fodelau gwell o asesu, trin a chefnogi fel y mae'r ymgynghoriad hwn yn ei nodi.

Gyda'r Papur Gwyrdd hwn, rydym yn gwahodd barn o bob rhan o gymdeithas, gan gynnwys pobl anabl a

---

1 Gwariant budd-daliadau a thablau llwyth achosion – GOV.UK (www.gov.uk)

sefydliadau cynrychioliadol, i sicrhau bod pawb yn cael cyfle i lunio diwygiadau lles a fydd yn moderneiddio’r cymorth a ddarperir trwy’r system fudd-daliadau. Byddwn yn astudio canfyddiadau’r ymgynghoriad hwn yn ofalus, a fydd yn cefnogi fy nghenhadaeth i adeiladu system les gyda thegwch a thosturi wrth ei gwraidd.

Y Gwir Anrhydeddus Mel Stride AS
**Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau**

# Crynodeb Gweithredol

1. Rydym yn benderfynol o gael system les sy'n darparu rhwyd ddiogelwch hanfodol i'r rhai sydd ei hangen fwyaf, wrth annog a chefnogi pobl i mewn i waith. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno diwygiadau olynol i greu system les sy'n deg ac yn dosturiol wrth ddarparu gwerth i'r trethdalwr.

2. Rydym yn mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl anabl rhag byw bywydau annibynnol a boddhaus, fel y nodir yn ein Cynllun Gweithredu Anabledd, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2024. Mae hynny'n golygu gwneud ein gwlad y lle mwyaf hygyrch yn y byd i bobl anabl fyw, gweithio a ffynnu.

3. Rydym am ddylunio system les sy'n addas ar gyfer y dyfodol, system sy'n deg ac yn dosturiol. Fodd bynnag, nid yw ein system fudd-dal anabledd gyfredol ar gyfer oedolion o oedran gweithio yn darparu cymorth yn y ffordd y bwriadwyd hynny.

4. Trwy *Transforming Support: The Health and Disability White Paper* (2023), rydym wedi cymryd camau sylweddol i fynd i'r afael â'r rhwystrau a'r anghymelliadau gwaith o fewn y system fudd-daliadau gan ein bod yn gwybod bod mewn gwaith addas yn dda i iechyd corfforol a meddyliol, lles a diogelwch ariannol pobl. Rydym hefyd wedi buddsoddi mewn ehangu ein rhaglenni cyflogaeth gwirfoddol arloesol, fel Cymorth Cynhywsol, WorkWell ac Ymgymghorwyr Cyflogaeth yn *Talking Therapies* y GIG

i sicrhau bod mwy o bobl anabl a phobl sydd â chyflyrau iechyd yn gallu cael cymorth integredig wedi'i deilwra i'w helpu i symud yn agosach at waith.

5. Cyflwynwyd y Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) yn 2013 i ddarparu taliadau arian parod heb brawf modd i bobl anabl a phobl sydd â chyflyrau iechyd i'w helpu i fyw bywydau annibynnol. Y bwriad oedd y byddai PIP yn gyfraniad at gostau ychwanegol sy'n deillio o'u hanabledd ac y byddai'n fudd-dal mwy cynaliadwy, deinamig a fyddai hefyd yn talu mwy o sylw i iechyd meddwl na'i ragflaenydd, Lwfans Byw i'r Anabl (DLA). Nid yw'r costau ychwanegol hyn wedi'u diffinio, ac mae hawlwyr yn gallu gwario'r arian a gânt yn unol â›u blaenoriaethau eu hunain.

6. Yn y degawd ers hynny, mae natur iechyd ac anabledd wedi newid ac mae llwyth achosion a chostau'r budd-dal wedi codi'n sylweddol, gan adlewyrchu nifer cynyddol o achosion o anabledd hunan-adroddedig. Credwn mai dyma'r amser iawn i edrych eto ar sicrhau bod cymorth y llywodraeth i bobl sydd ag afiechyd ac anableddau yn canolbwyntio lle mae ei angen mwyaf. Credwn hefyd y gallai fod ffyrdd gwell o gefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol a boddhaus, a dyma'r syniad sy'n rhedeg drwy'r Papur Gwyrdd hwn. Gallai hyn olygu bod cymorth ariannol yn cael ei dargedu'n well at bobl sydd â chostau ychwanegol penodol, ond gallai hefyd gynnwys gwell cefnogaeth o fathau eraill, fel triniaeth iechyd corfforol neu feddyliol, gan arwain at ganlyniadau gwell.

7. Erbyn hyn mae 2.6 miliwn o bobl oedran gweithio yn cael PIP a DLA ac mae mwy o oedolion yn y DU bellach yn hysbysu anabledd na phan gyflwynwyd PIP yn gyntaf.[2] Mae bron i chwarter yr oedolion o oedran gweithio yn y DU yn dweud bod ganddynt anabledd neu gyflwr iechyd sy'n achosi anhawster sylweddol gyda gweithgareddau bob dydd, i fyny o 16% pan gyflwynwyd PIP yn gyntaf.[3] Mae hyn yn cyfateb ag 8 miliwn o bobl o oedran gweithio yng Nghymru a Lloegr. Dywed llawer o'r rhain, 3.7 miliwn, eu bod yn cael anawsterau gydag iechyd meddwl, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y llwyth achosion. Mae cyfran y bobl sy'n cael PIP a DLA, sydd â gorbryder neu iselder fel eu prif gyflwr, wedi cynyddu ers y pandemig. Yn 2019 roedd cyfartaledd o ychydig o dan 2,200 o ddyfarniadau PIP newydd y mis yng Nghymru a Lloegr lle mai'r prif gyflwr anablu oedd gorbryder cymysg ac anhwylderau iselder. Mae hyn wedi mwy na dyblu i 5,300 y mis yn 2023.

8. Mae'r costau wedi cynyddu yn unol â hyn. Dros y 5 mlynedd nesaf, disgwylir i wariant PIP dyfu 63% (£21.6bn

---

2 Tablau Llwyth Achosion a Gwariant Budd-daliadau, AS23: Gwariant budd-daliadau a thablau llwyth achosion 2023 – GOV.UK (www.gov.uk) a CBP-9366.pdf (parliament.uk) t.4

3 Arolwg Adnoddau Teuluoedd 2022/23: https://stat-xplore.dwp.gov.uk/webapi/jsf/login.xhtml

i £35.3bn, 23/24 i 28/29).[4] Erbyn hyn mae 33,000 o bobl yn ymuno â'r budd-dal, tua dwbl y gyfradd cyn y pandemig.[5]

9. Mae angen i ni sicrhau bod gennym system sy'n gynaliadwy ac yn deg i bawb. Cynlluniwyd PIP fel cyfraniad tuag at y costau ychwanegol sy'n wynebu pobl â chyflyrau iechyd ac anableddau i alluogi byw'n annibynnol. Bydd gan rai hawlwyr gostau ychwanegol sylweddol sy'n gysylltiedig â›u hanabledd; bydd eraill yn cael y costau lleiaf posibl. Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn ystyried a oes ffyrdd y gallwn wella sut rydym yn cefnogi pobl, mewn ffordd y mae hefyd yn decach i'r trethdalwr na'r system bresennol.

10. Trwy gydol y Papur Gwyrdd hwn, rydym yn cael ein harwain gan dair blaenoriaeth sef:

- Darparu'r gymorth cywir i'r bobl sydd ei angen fwyaf.
- Targedu ein hadnoddau yn fwy effeithiol.
- Cefnogi pobl anabl i gyrraedd eu potensial llawn a byw'n annibynnol.

---

4 Gwariant budd-daliadau a thablau llwyth achos – GOV.UK (ww.gov.uk)

5 StatXplore: 33,000 o Ddyfarniadau Rheolau Arferol Ceisiadau Newydd ym mis Ionawr 24, o'i gymharu â 17,000 ym mis Ionawr 2020. Gweler tablau Clirio PIP Stat-Xplore.

11. Bydd y Papur Gwyrdd hwn yn archwilio newidiadau y gallem eu gwneud i'r system PIP gyfredol i sicrhau bod cymorth yn cael ei dargedu lle mae ei angen fwyaf. Mae'r opsiynau hyn yn cynnwys:

- Gwneud newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer PIP.
- Ailgynllunio'r asesiad PIP i'w dargedu'n well tuag at anghenion unigol pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd.
- Diwygio'r asesiad PIP fel ei fod yn fwy cysylltiedig â chyflwr unigolyn.

12. Bydd y Papur Gwyrdd hefyd yn archwilio a ddylem wneud newidiadau sylfaenol i'r ffordd yr ydym yn darparu cymorth i bobl anabl a phobl sydd â chyflwr iechyd. Gwyddom fod costau ychwanegol o gael anabledd neu gyflwr iechyd yn amrywio'n sylweddol, ac nad yw'r system bresennol yn diwallu eu hanghenion yn y ffordd fwyaf effeithlon nac effeithiol i rai pobl. Rydym hefyd yn cydnabod y gallai gwasanaethau lleol eraill ddarparu cymorth gwell sy'n cael ei dargedu'n fwy. Rydym am glywed sut y gellid gwella'r system les drwy archwilio dulliau newydd o ddarparu cymorth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Symud i ffwrdd o system budd-dal arian parod sefydlog fel y gall pobl gael mwy o gymorth wedi'i deilwra yn unol â'u hanghenion.

- Symud tuag at gyfuniad gwell o wasanaethau lleol a ffordd symlach i unigolion gael mynediad at bob math o gymorth a gofal, wrth leihau dyblygu, er mwyn diwallu anghenion pobl sydd â chyflyrau iechyd ac anableddau yn well.
- Archwilio ffyrdd amgen o gefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol a boddhaus. Gallai hyn olygu bod cymorth ariannol yn cael ei dargedu'n well at bobl sydd â chostau ychwanegol penodol, ond gallai hefyd gynnwys gwell cymorth o fathau eraill, fel triniaeth iechyd corfforol neu feddyliol, gan arwain at ganlyniadau gwell.

13. Hoffem glywed gennych am y dulliau y dylem eu hystyried. Yn hanfodol, rydym eisiau eich barn ynghylch a allwn gyflawni ein huchelgais o fewn strwythur presennol budd-daliadau iechyd ac anabledd neu a oes angen newid ehangach.

14. Byddwn bob amser yn cefnogi'r rhai sydd ei angen. Drwy gydol yr ymgynghoriad hwn byddwn yn parhau i wrando ar bobl anabl, pobl sydd â chyflyrau iechyd a'u cynrychiolwyr i gyrraedd y nodau pwysig hyn, a gweithio gyda nhw. Llywodraeth y DU yn ogystal a'r Gweinyddiaethau Datganoledig sy'n gyfrifol am fudd-daliadau iechyd ac anabledd. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig i ystyried goblygiadau'r cynigion yn y Papur Gwyrdd hwn yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

E03109954
978-1-5286-4809-7